Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**UDA** Y Ffindir **Yr Emiradau Arabaidd Unedig** Colombia Mecsico Pilipinas **Gwlad Belg** Singapôr Brasil Canada Qatar **Sbaen** Yr Iseldiroedd Saudi Arabia **Tsieina** Gwlad Pwyl **India** Hong Kong Ethiopia Rwsia **Yr Eidal** Norwy Y Swistir **Cymru yn y Byd** Awstralia **Japan** Taiwan De Affrica Denmarc **Yr Almaen** Y Weriniaeth Tsiec Twrci **Uganda** Portiwgal **Yr Iseldiroedd** Romania Uganda **Ffrainc**

# Agenda Ryngwladol Llywodraeth Cymru



Cwmni Halen Môn



Y Senedd, Bae Caerdydd



Ymweliad â phrosiectau Cymru o Blaid Affrica yn Uganda



Cyfarch Arlywydd UDA, Barack Obama



Pen y Fan, Bannau Brycheiniog



Traeth Harlech, Parc Cenedlaethol Eryri



Castell Conwy, Gogledd Cymru




Dilyn Trywydd Dylan Thomas yn Efrog Newydd

# Cynnwys


Rhagair Prif Weinidog Cymru 4

1. Cyflwyniad 6

2. Ein diben a'n hamcanion 8

3. Masnach a buddsoddi 8

4. Twristiaeth a diwylliant 11

5. Y Sectorau Addysg ac Iechyd 13

6. Gweithio yn ein marchnadoedd allweddol a chynrychiolaeth dramor 15

7. Cymru ac Ewrop 17

8. Datblygiad cynaliadwy rhyngwladol 18

9. Hyrwyddo Cymru 20

Sylwadau clo 24

# Rhagair
# Prif Weinidog Cymru

Mae dŵr yn amgylchynu Cymru ar dair ochr felly nid yw'n fawr o syndod bod pobl Cymru wedi creu cysylltiadau â'r byd ehangach ers blynyddoedd lawer. Yn y dyddiau a fu, roedd y traffig yn cynnwys pysgotwyr mewn cwryglau, pererinion, môr-ladron, seintiau, milwyr, masnachwyr ac anturiaethwyr. Byddai Cymru yn denu mewnfudwyr hefyd: y Gwyddelod, y Normaniaid a'u disgynyddion Seisnig. Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, daeth mewnfudwyr newydd i chwilio am le i fuddsoddi eu harian ac ennill bywoliaeth, ac mae'r traddodiad hwnnw'n parhau hyd heddiw. Mae Cymry yn gweithio neu'n astudio mewn gwahanol rannau o'r byd ac yma yng Nghymru rwyf wedi cyfarfod â phobl o'r pum cyfandir gan gynnwys gyrwyr tacsi, ymchwilwyr, athrawon, gofalwyr, nyrsys a meddygon.

Ers oddeutu 50 mlynedd, mae economi Cymru wedi datblygu fwyfwy yn economi fyd-eang. Mae Cymru wedi newid, ac mae'r byd o'n cwmpas wedi newid hefyd. Wrth i'n diwydiannau trymion ddirywio, aethom ati i chwilio am fuddsoddwyr o'r tu allan i Gymru. Cawsant eu denu yma gan weithlu rhagorol a chynhyrchiol, systemau cyfathrebu da, sail gostau gystadleuol a'r gallu i fanteisio ar farchnadoedd Ewropeaidd enfawr. Heddiw, mae cannoedd o gwmnïau tramor yn buddsoddi yng Nghymru ac yn cyflogi miloedd lawer.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae denu buddsoddwyr wedi mynd yn llawer mwy cystadleuol. Mae globaleiddio a datblygiad corfforaethau rhyngwladol yn caniatáu i gwmnïau symud asedau'n gyflym o amgylch y byd. O ganlyniad, mae'n rhaid inni weithio'n galetach fyth i gadw a denu busnesau. Mae busnesau'n hoffi Cymru ond rhaid inni beidio â'n twyllo'n hunain a chredu bod sentiment yn cyfateb i fuddsoddiad. Nid felly y mae. Mae angen cymryd camau pendant i gynnig rhywbeth o werth. Nid yw busnesau'n buddsoddi ar sail sentiment ac mae angen iddynt deimlo'u bod yn buddsoddi mewn gwlad sy'n mynd ati o ddifrif i'w croesawu.

Mae angen i Gymru fod ag ôl troed cadarn o amgylch y byd a rhaid inni fod yn barod i weithredu'n gyflym a chynnig cyfleoedd penodol. Os byddwn yno'n curo ar ddrysau, mae gennym rywfaint o obaith, o leiaf, o guro gweddill y cystadleuwyr a sicrhau'r buddsoddiad – os na fyddwn yno, ni fydd gennym y gobaith lleiaf. Ni wyf am ymddiheuro i neb am wneud ein gorau glas i werthu Cymru dramor. Rwyf am weld y swyddi hynny'n dod i Gymru a bydd y llywodraeth hon yn gwneud popeth yn ei gallu i'w cadw.

Mae gennym bresenoldeb yn holl brif ranbarthau buddsoddi'r byd: Gogledd America, Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia. Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu rhwydweithiau, sicrhau bod pobl yn gwybod am Gymru a manteisio'n gyflym ar gyfleoedd i ddenu buddsoddwyr. Nid ydym ar ein pennau'n hunain. O amgylch ein swyddfeydd mae gwledydd a rhanbarthau eraill sy'n ceisio gwneud yn union yr un fath â ni.

Mae'r gwaith hwn yn hynod gystadleuol ac, yn ogystal â chael y bobl iawn yn y lleoedd iawn o amgylch y byd, mae angen cefnogaeth a symudedd gan bobl yng Nghymru ei hun. Gall swyddfeydd mewn gwledydd tramor greu cysylltiadau ac agor drysau ond mae angen cymorth gan bobl o Gymru i daro'r fargen. Os bydd angen cymorth gan Weinidog, gallwn sicrhau hynny hefyd. Y gallu i fanteisio'n gyflym ac yn briodol ar wasanaeth Gweinidogion yw un o'r pethau sy'n rhoi mantais inni ar y rhai sy'n cystadlu yn ein herbyn. Ni fyddwn yn denu busnesau drwy'r drws ac yna anghofio amdanynt. Byddwn yn gweithio'n galed i gynnal ein perthynas â nhw tra byddant yma a, phan fydd angen ein cymorth ar fuddsoddwyr, byddwn yn falch o wneud hynny, os yw'n bosib. Dyma pam y mae rhai o'n prif fuddsoddwyr wedi bod yma am ddegawdau – a dyna pam mai'r buddsoddwyr eu hunain yw'r hysbysebion gorau am yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.

Gellir buddsoddi yng Nghymru mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r addysg uwch y gall Cymru ei chynnig i fyfyrwyr o bob cwr o'r byd yn werth miliynau lawer i'n prifysgolion a'u cymunedau cyfagos. Twristiaeth yw un o'n diwydiannau mwyaf ac mae'n faes a fydd

yn tyfu am flynyddoedd eto. Yn y sectorau creadigol a diwylliannol, mae Cymru yn sicr yn cystadlu gyda'r goreuon ac mae angen inni fanteisio'n llawn ar yr hyn y gallant ei gynnig.

Un o'n blaenoriaethau pwysicaf yw ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ni fyddaf byth yn colli cyfle i danlinellu pa mor bwysig yw hi i Gymru barhau i fod yn aelod o'r UE. Yn rhannol, mae hyn oherwydd ein buddiannau Ewropeaidd uniongyrchol– amaethyddiaeth, yr amgylchedd a chyllid rhanbarthol, ymhlith pethau eraill. Mae buddiannau polisi Cymru yn ymestyn y tu hwnt i'n ffin ni â Lloegr. Mae dadleuon pwysig ar lefel Ewropeaidd–ac ar lefel fyd-eang yn wir–yngŷn â'r newid yn yr hinsawdd, polisi ynni, arloesedd ac ymchwil a materion eraill, ac mae'r cyfan yn dyngedfennol i ddyfodol Cymru. Mae gennym lais a byddwn yn ei ddefnyddio.

Drwy'r UE, gall Gymru fanteisio ar floc marchnad rydd fwyaf y byd, sef marchnad sengl o dros bum miliwn o bobl. Does dim dwywaith nad yw'n prif fuddsoddwyr byd-eang yma er mwyn manteisio ar farchnadoedd Ewropeaidd. Byddai'n drychineb economaidd enfawr i Gymru pe bai'r DU yn gadael yr UE a bydd y llywodraeth hon yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau na fydd hynny'n digwydd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i anfon cynrychiolwyr i Frwsel ac yn parhau i geisio llywio polisïau er budd Cymru yn ogystal â sicrhau bod Cymru yn cael y gyfran fwyaf bosibl o'r cyllid sydd ar gael i ysgogi ein heconomi.

Un agwedd ar y gwaith rhyngwladol rwy'n ymfalchïo fwyaf ynddi yw'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i wledydd tramor ond gallwn ymgysylltu â rhannau o Affrica mewn ffyrdd sy'n fuddiol i ninnau hefyd. Ledled Cymru mae rhwydwaith datblygedig o weithgareddau gwirfoddol gan gymdeithas sifil sy'n hybu prosiectau cymunedol yn Affrica ac, fel llywodraeth, rydym yn gallu gweithio gyda'r cynlluniau hyn a'u cefnogi. Rydym hefyd yn cefnogi rhaglen i anfon pobl broffesiynol o Gymru i rannu eu harbenigedd â gweithwyr prosiect mewn cymunedau



yn Affrica Is-Sahara. Yr elfen gyffrous yn ein dull ni o weithredu yw'r ffaith bod cymunedau yn Affrica a ninnau yma yng Nghymru yn elwa.

Gwlad fach yw Cymru ond mae'n cael cryn ddylanwad ar rai meysydd polisi datganoledig– datblygu cynaliadwy, hawliau plant, dwyieithrwydd– mae gan Gymru enw da drwy'r byd i gyd a chaiff ei pharchu yn ein cymuned o genhedloedd. Mae gan ein cenedl lawer i'w ennill wrth edrych tuag allan, a llawer i'w gynnig.

Rwyf wedi teithio ar hyd a lled y byd yn chwifio'r faner i hybu buddsoddiadau ac allforion Cymru. Mae'r rhai sy'n cystadlu yn ein herbyn allan yno ac ni fyddwn yn gwneud cyfiawnder â Chymru os na wnawn ninnau'r un modd. Weithiau, byddwn yn dod yn ôl yn waglaw: bryd hynny byddwn yn ysgwyd y llwch oddi ar ein traed cyn rhoi cynnig arall arni. A byddwn yn dyfalbarhau. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ein ffigurau gorau ers cenhedlaeth o ran buddsoddiadau. Nid drwy ddamwain y digwyddodd hynny. Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar strategaeth, dyfalbarhad ac ymrwymiad.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r byd ehangach.



**Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**
Prif Weinidog Cymru



Canolfan Mileniwm Cymru




Airbus yng Nglannau Dyfrdwy

# 1. Cyflwyniad

## Mae'r ddogfen hon yn disgrifio agenda ryngwladol Llywodraeth Cymru ac yn tanlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod gan Gymru ôl troed cadarn o amgylch y byd.

Mae globaleiddio'n cynnig heriau a chyfleoedd i Gymru. Mae rhai diwydiannau wedi symud eu gwaith cynhyrchu i wledydd lle mae costau cynhyrchu'n is. Yn ogystal â hyn, mae dulliau cyflymach o gyfathrebu a mesurau i lacio rhwystrau masnachu yn caniatáu i Gymru greu cysylltiadau â gwledydd a chwilio ymhellach nag erioed o'r blaen am gyfleoedd i fasnachu.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i helpu busnesau Cymru i ddatblygu dramor yn ogystal â gartref. Pan fydd cwmnïau yng Nghymru am dyfu drwy allforio rhagor, mae angen inni eu helpu i gyrraedd marchnadoedd rhyngwladol. Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu teithiau masnach ac yn helpu cwmnïau i fynd i gynadleddau masnachol mawr a gynhelir dramor. Mae brandiau Cymru i'w gweld fwyfwy dramor, yn enwedig nwyddau ym mhen uchaf y farchnad.

Mae buddsoddiad uniongyrchol o dramor yn hanfodol i economi Cymru. Mae'r byd busnes rhyngwladol yn gynyddol gystadleuol. Gan fod rheolaeth dros sbarduno datblygiad economaidd wedi'i datganoli a chan ein bod yn gallu sicrhau presenoldeb corfforol mewn marchnadoedd allweddol, gallwn ymateb yn gyflym i gyfleoedd a chreu cysylltiadau sy'n sicrhau canlyniadau i Gymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cwmnïau o dramor wedi buddsoddi mwy nag erioed yng Nghymru.

Mae twristiaeth yn fusnes pwysig sy'n tyfu ac mae'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn gallu cystadlu fwyfwy gyda'r gorau yn Ewrop. Mae Cymru yn lle atyniadol i ymwelwyr, myfyrwyr, buddsoddwyr a phobl fusnes. Mae angen lledaenu'r neges hon drwy'r byd i gyd.

Mae Cymru yn adnabyddus am ei diwylliant ac mae'r llwyfan hwn yn helpu gyda'n hymdrechion i ddenu masnach a buddsoddiadau rhyngwladol. Drwy gydweithredu, gall artistiaid o Gymru gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol a gellir denu digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol i Gymru.

Mae sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru yn elwa o fuddsoddiad sylweddol gan fyfyrwyr o dramor. Maent hwythau, yn eu tro, yn cyfrannu at yr economi leol ac yn rhoi hwb i'r farchnad ymwelwyr . Mae'r sectorau addysg yn dyngedfennol i'r broses o hyrwyddo buddiannau rhyngwladol Cymru, yn arddangos arfer gorau, gwaith ymchwil ac arloesi.

Bydd sefydliadau rhyngwladol yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfrifoldebau datganoledig Cymru. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn elfen sylfaenol o broses


Myfyrwyr yn dathlu llwyddiant arholiadau


Ynys Llanddwyn, Ynys Môn

lywodraethu Cymru a byddwn yn cyfrannu'n llawn at benderfyniadau sy'n effeithio ar ein buddiannau. Mae rhaglenni cyllido Ewropeaidd yn helpu i gynnal datblygiad economaidd Cymru a byddwn hefyd yn cydweithredu â'n cymdogion at y diben hwn drwy raglen INTERREG. Yn yr un modd, rydym yn ceisio ymgysylltu â chyrff rhyngwladol i hyrwyddo safbwyntiau Cymru mewn meysydd polisi allweddol fel datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd.

Fel rhan o'r gymuned fyd-eang o genhedloedd mae gan Gymru gyfrifoldebau, a byddwn yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn drwy'n rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn fwyaf penodol.

Mae angen inni fynd ati'n ofalus i benderfynu sut i ddyrannu'n hadnoddau a chryfhau'n ôl troed yn y byd. Mae'n rhaid inni benderfynu ar flaenoriaethau penodol a chlir.


Y Gwarchodlu Cymreig yn paredio yng Nghastell Caerdydd

# 2. Ein diben a'n hamcanion

Prif ddiben ein gwaith rhyngwladol yw creu Cymru fwy ffyniannus a chynaliadwy drwy gynyddu allforion a buddsoddiadau gan gynyddu dylanwad Cymru i hybu'n polisïau.

Dyma'n hamcanion:

- cryfhau economi Cymru;
- ehangu proffil ac enw da Cymru;
- datblygu a chynnal cysylltiadau dwyochrog ac amlochrog effeithiol;
- cymryd camau pendant i gydweithredu i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ac i ddysgu gan gymheiriaid;
- cynyddu dylanwad Cymru ymhlith sefydliadau amlochrog a rhyngwladol priodol;
- cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol;


Y Prif Weinidog yn ymweld a HMS Dragon

# 3. Masnach a buddsoddi

Mae masnach a buddsoddi rhyngwladol yn helpu i ddatblygu a chynnal economi gref yng Nghymru.

## Masnach

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau i gynyddu eu hallforion drwy fasnachu'n rhyngwladol. Byddwn yn annog cwmnïau yng Nghymru i sicrhau archebion allforio newydd a chyfrannu at dwf economaidd a ffyniant. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel rhwydweithiau busnes, UK Trade and Invest (UKTI), VisitBritain, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, cyrff masnachu yn y DU a thramor i helpu i greu cyfleoedd i fusnesau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu digwyddiadau llwyddiannus i hyrwyddo Cymru fel partner busnes. Byddwn yn trefnu teithiau masnach ac arddangosfeydd sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol i ddangos y gorau sydd gan Gymru i'w gynnig yn ein sectorau allweddol. Drwy drefnu teithiau masnach amlsector, gallwn ddangos cymaint y gall Cymru ei gynnig i'r marchnadoedd allweddol a marchnadoedd newydd. Mae allforion Cymru wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda'n cefnogaeth ni, llwyddodd cwmnïau Cymru i ennill gwerth dros £50m o fusnes ychwanegol yn 2014-15 – sef cynnydd o 57% ers y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, ymyrrodd Llywodraeth Cymru dros 650 gwaith i gefnogi busnesau ledled Cymru.

Gellir rhannu'r gefnogaeth hon yn bedwar prif faes:

- ysbrydoli cwmnïau i ystyried allforio fel dull o dyfu
- trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau i helpu cwmnïau i gynyddu eu gallu i allforio
- helpu cwmnïau i gysylltu â chwsmeriaid posibl dramor
- cynorthwyo cwmnïau i ymweld â marchnadoedd tramor

Rhwng 1999 a 2014, bu cynnydd o 113.8 y cant yn allforion Cymru, sef y cynnydd mwyaf drwy holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

Cyfanswm yr allforion yn ystod 2014 oedd £13.2 biliwn ac i'r Unol Daleithiau roedd busnesau Cymru yn allforio fwyaf (£2.83 biliwn), yna Iwerddon (£1.52 biliwn), yr Emiraethau Arabaidd Unedig (£1.13 biliwn), yr Almaen (£1.04 biliwn) a Ffrainc (£635 miliwn).

Mae Ffigur 1 yn dangos y 10 gwlad yr allforiwyd fwyaf iddynt yn ystod 2014.

Ffigur 1: Y 10 gwlad yr allforiwyd fwyaf iddynt yn 2014 a gwerth yr allforion hynny (£m)

| | |
|---|---|
| UDA | 2,834.1 |
| Iwerddon | 1,522.1 |
| Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | 1,136.5 |
| Yr Almaen | 1,041.4 |
| Ffrainc | 635.2 |
| Gwlad Belg | 617.5 |
| Yr Iseldiroedd | 568.7 |
| Singapôr | 427.5 |
| Canada | 348.2 |
| Qatar | 302.6 |

Ffynhonnell: HMRC

## Buddsoddi

Mae gan Gymru economi agored sy'n edrych tuag allan ac mae cwmnïau tramor yn buddsoddi'n uniongyrchol yn y wlad ers blynyddoedd. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, mae cannoedd o gwmnïau tramor wedi dewis lleoli eu gweithrediadau yma a, gyda'i gilydd, maent yn rhan hanfodol o'n ffyniant cenedlaethol. Rydym yn targedu diwydiannau a chanddynt werth a thwf uchel er mwyn creu cyfoeth a gwaith yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae rhyw 1,100 o gwmnïau tramor yn gweithredu yng Nghymru ac yn cyflogi tua 150,000 drwy'r holl sectorau.

Yn 2013-14 llwyddwyd i sicrhau mewnfuddsoddiad gan 79 o gwmnïau, sef y nifer fwyaf ers 30 o flynyddoedd. Penderfynodd



Detholiad o gynnyrch Cymreig yn cael ei arddangos



Convatec




Airbus Beluga ar y llwybr glanio yng Nglannau Dyfrdwy



Gweinidog yr Economi Edwina Hart yn cyfarch Cadeirydd a Phrif Weithredwr Calbee, Mr. Akira Matsumoto



Sony Electronics

cwmnïau eraill sydd wedi hen sefydlu yma i ail-fuddsoddi gan gynnwys Sony, GE Healthcare, EE, Airbus a Convatec, a llwyddwyd i sicrhau buddsoddiadau newydd gan gwmnïau fel Clickbond, AIC Steel a Stiwdios Pinewood. Yn 2013-14, cafwyd 16 o fuddsoddiadau newydd yng Nghymru, ail- fuddsoddodd 53 o gwmnïau yma a chafwyd 10 o gaffaeliadau. O ganlyniad, crëwyd dros 2,800 o swyddi newydd a diogelwyd bron 8,000 o swyddi eraill. Mae ffigur 2 yn dangos y 10 ffigur mewnfuddsoddi uchaf yn ôl gwlad ar gyfer 2013-14.

Mae ein gallu i ddenu mewnfuddsoddiad o dramor wedi parhau yn ystod 2014-15. Daeth nifer o fuddsoddwyr newydd i Gymru yn ystod y 12 mis diwethaf i sefydlu eu pencadlys yn Ewrop neu'r DU. Sefydlodd Leadin, cwmni meddalwedd o'r Ffindir, ei bencadlys ar gyfer y DU yn Abertawe gan greu 30 o swyddi. Daeth Calbee, cwmni o Japan sy'n cynhyrchu byrbrydau, i Lannau Dyfrdwy i sefydlu ei safle cynhyrchu cyntaf yn Ewrop gan greu 100 o swyddi. Mae Alert Logic, un o brif gwmnïau seiberddiogelwch yr Unol Daleithiau, yn creu 122 o swyddi ar ddau safle yng Nghasnewydd a Chaerdydd.

Mae'r buddsoddiadau newydd hyn yn cyd-fynd â phenderfyniad cwmnïau sydd eisoes wedi sefydlu yng Nghymru i ail-fuddsoddi yma. Bydd penderfyniad cwmnïau fel CGI, Deloitte a SPTS i ehangu'n sylweddol yn creu dros 1,300 o swyddi dros y pum mlynedd nesaf gan ddangos bod yr amgylchedd busnes yng Nghymru yn ffynnu.

Mae'r cynnig Cymreig yn rhoi'r hyn y mae buddsoddwyr yn chwilio amdano:

- cymorth i leoli yng Nghymru;
- safleoedd a fydd yn caniatáu iddynt ffynnu yn y farchnad Ewropeaidd;
- gwasanaethau ôl-ofal ardderchog;
- y pecyn cymorth ariannol mwyaf hael yn y DU.

Y ffaith bod cynifer o gwmnïau o safon fyd-eang wedi'u lleoli yma, a'u bod wedi buddsoddi yma cyhyd, yn ogystal â phenderfyniad cynifer o'n buddsoddwyr hirdymor i ehangu eu gwaith yma, yw'r hysbyseb orau i Gymru.


Cynnal a chadw injanau yn GE Aircraft Manufacturing

Ffigur 2. Y 10 ffigur mewnfuddsoddi uchaf yn ôl gwlad yn ystod 2013-14

| Gwlad | Cyfanswm y swyddi (a grëwyd ac a ddiogelwyd) |
|---|---|
| Ffrainc | 3,456 |
| UDA | 2,597 |
| Sbaen | 1,189 |
| Yr Eidal | 674 |
| Liechtenstein | 600 |
| Yr Almaen | 591 |
| Sweden | 370 |
| Guernsey | 279 |
| Y Swistir | 200 |
| Japan | 164 |

Ffynhonnell: HMRC

Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cymru fel y wlad y mae cwmnïau tramor yn dewis buddsoddi ynddi os ydynt yn awyddus i ddod i'r DU ac Ewrop, gan wneud hynny drwy gynnig pecynnau cymorth sydd wedi'u haddasu'n benodol ar eu cyfer ac amgylchedd economaidd sy'n croesawu busnesau.

# 4. Twristiaeth a diwylliant

## Mae diwylliant a threftadaeth yn helpu i ddiffinio Cymru ac maent ymhlith y prif resymau pam y mae cynifer yn ymweld â'n gwlad.

Mae twristiaeth yn elfen hanfodol o les economaidd Cymru ac mae'n dyngedfennol i lawer o gymunedau gwledig ac arfordirol. Mae ymwelwyr yn cyfrannu oddeutu £5 biliwn at economi Cymru ac mae'r diwydiant yn cyflogi bron 124,000.

Mae Cymru wedi gweld twf cryf a chyson yn niferoedd yr ymwelwyr o farchnad ddomestig y DU dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer 2014 yn dangos twf o 7% mewn ymweliadau â Chymru o'i gymharu â 2013.

Drwy ddilyn ein Strategaeth Dwristiaeth[1] y nod yw creu twf yn y sector dwristiaeth ac mae marchnata diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru yn effeithiol yn ganolog i hyn. Mae Cadw, sy'n gyfrifol am ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru, yn cydweithio'n agos â Croeso Cymru i hyrwyddo'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i farchnadoedd rhyngwladol.

Mae traddodiadau Cymru, ei llenyddiaeth, henebion hanesyddol, cerddoriaeth, celfyddydau a'i dawns i gyd yn cyfrannu at 'DNA' diwylliannol unigryw. Yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n dyddio'n ôl i 1176, yw un o wyliau diwylliannol hynaf a mwyaf unigryw'r byd.

1. Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn hyrwyddo diwylliant Cymru ar lwyfan y byd a hynny drwy gyfrwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI), partneriaeth ar y cyd gyda British Council Cymru. Roedd y WAI yn allweddol i'r fenter i ddenu WOMEX 2013, un o brif ddigwyddiadau cerddorol y byd, i Gaerdydd. Mae sefydliadau o safon fyd-eang ym myd y celfyddydau perfformio, fel Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol y BBC, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, a llawer rhagor, yn codi'n proffil ac yn ychwanegu at enw da Cymru.

Mae'r Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at raglenni ymchwil cydweithredol gyda'n partneriaid rhyngwladol. Mae'r rhain, a sefydliadau eraill, hefyd yn cefnogi arddangosfeydd mewn gwledydd eraill i hyrwyddo Cymru dramor.

Dim ond rhan o'r hyn sy'n denu ymwelwyr i Gymru yw'n diwylliant. Gall diwydiant ymwelwyr Cymru gystadlu â'r goreuon, cynnig y croeso cynhesaf, safonau rhagorol, gwerth ardderchog am arian a phrofiadau cofiadwy, dilys i bob ymwelydd. Gall Cymru gynnig profiadau eang yn ymwneud â phob mathau o ddiddordebau a marchnadoedd arbenigol fel teithiau coginio, beicio mynydd a chwaraeon eithafol. Wrth wraidd hyn oll mae ymgyrchoedd marchnata arloesol sy'n targedu'n marchnadoedd twristiaeth traddodiadol, sef y DU, Iwerddon, Ewrop ac UDA ac, yn gynyddol, marchnadoedd newydd fel Japan a Tsieina.

Mae diwylliant Cymru yn bwysig i bobl y tu hwnt i'n gwlad fach ni hefyd. Mae Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn croesawu perfformwyr diwylliannol o bedwar ban byd i rannu'r traddodiad hwn. Yn 2015, bydd Cymru'n dathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Heddiw, mae gan dalaith Chubut, lle ymsefydlodd y mwyafrif o'r mewnfudwyr, boblogaeth o 550,000, gyda thua 50,000 o dras Cymreig a 5,000 ohonynt yn siarad Cymraeg o hyd.

Byddwn yn ceisio adeiladu ar ein hasedau unigryw i sicrhau cynnydd o 10%, mewn termau real, yn yr enillion a gynhyrchir drwy dwristiaeth erbyn 2020, gan ganolbwyntio fwyfwy ar hybu gweithgareddau marchnata rhyngwladol, i gynyddu gwerth ymwelwyr tramor i Gymru.


Cantorion yn Eisteddfod yr Urdd


Eisteddfod Ryngwladol Llangollen


Diwrnod i'r teulu yng Nghastell Biwmares


Jamie Smith's Mabon

# 5. Y Sectorau Addysg ac Iechyd

Drwy gydweithredu ar brosiectau rhyngwladol, byddwn yn helpu Cymru i ffynnu, yn ychwanegu at enw da Cymru yn y byd ac yn cryfhau 'brand Cymru'.

## Addysg

Mae sefydliadau addysgol yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi drwy ymgysylltu rhyngwladol. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUG), Prifysgolion Cymru, y British Council a Cholegau Cymru i gefnogi a datblygu:

- cynlluniau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a rhaglenni cyfnewid;
- addysg trawswladol;
- partneriaethau i ddatblygu gwaith ymchwil, arloesedd a mentrau cydweithredol;
- sgiliau bywyd a phrofiadau ym maes dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn ôl amcangyfrifon Prifysgolion Cymru, drwy recriwtio myfyrwyr tramor, cynhyrchwyd enillion allforio gwerth £413 miliwn, £274 miliwn o wariant oddi ar y campws a 1,720 o swyddi yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2011/12.

Mae dros 25,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yn astudio ym mhrifysgolion Cymru. Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd yn 2011 gan Brifysgolion Cymru, roedd 38% o gyn-fyfyrwyr rhyngwladol Cymru a oedd wedi cychwyn busnes yn awyddus i archwilio cysylltiadau busnes â Chymru. At hyn, dywedodd 89% ohonynt y byddent yn 'debygol' neu'n 'debygol iawn' o hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.

I helpu i ddatblygu gweithgareddau rhyngwladol prifysgolion Cymru, rydym yn gweithio gyda CCAUG a Phrifysgolion Cymru i ddatblygu rhaglen newydd o'r enw 'Cymru Fyd-eang'. Nod y rhaglen yw:

- hyrwyddo'r neges am safon ac amrywiaeth yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig;
- cefnogi gweithgareddau rhyngwladol;



© Prifysgol Metropolitan Caerdydd

- cynyddu cyfraniad y sector at economi Cymru drwy ddenu mewnfuddsoddiad a thwristiaeth;
- hwyluso partneriaethau â sectorau busnes allweddol Cymru er mwyn datblygu cysylltiadau rhyngwladol ymhellach.

Rydym yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac yn ariannu'n cyfraniad at Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) i feincnodi cyrhaeddiad addysgol disgyblion ysgol ac i efelychu arfer gorau mewn gwledydd eraill.

Byddwn yn cydweithio â'r OECD i helpu i feithrin gallu ysgolion drwy Ddatblygu Arweinyddiaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r OECD a'n partneriaid rhyngwladol i fanteisio i'r eithaf ar waith ymchwil a datblygu gan ystyried sgiliau a systemau addysg uwch.

Drwy ein perthynas â'r British Council, rydym yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu gan gymheiriaid rhyngwladol a chyfleoedd arfer gorau. Rydym hefyd yn annog ymarferwyr a myfyrwyr i ymgysylltu'n rhyngwladol drwy'r cyfleoedd a gynigir gan raglenni fel Erasmus+ a'n Rhaglen Addysg Ryngwladol ein hunain, gan gynnwys Menter Addysg ac Ymchwil y DU ac India (UKIERI) a Phartneriaid Addysg y DU a Tsieina (UKCPIE).

2. Impact of International and EU students in Wales. 2011 [Saesneg yn unig].

Ein prif flaenoriaeth yw creu cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd i fanteisio i'r eithaf ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop yn ymwneud â sgiliau ac addysg uwch, yn ogystal â'r cysylltiadau drwy Erasmus ac Erasmus+.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau addysgol i recriwtio myfyrwyr tramor ac i weithio gyda sefydliadau tramor i ddatblygu gweithgareddau sy'n ymwneud yn benodol â myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i ddysgu oddi wrth arfer gorau rhyngwladol a threfniadau meincnodi i wella system addysg Cymru, gan sicrhau bod Cymru yn cael ei gweld fel partner delfrydol, o bwys.

## Iechyd

Rydym yn ymgysylltu'n eang yn rhyngwladol ym maes iechyd. Drwy weithio gydag eraill rydym yn hyrwyddo ac yn rhannu arfer gorau yn y maes. Ein nod yw dangos yr hyn y gallwn ei wneud fel partner ymchwil. Rydym yn cymryd rhan mewn prosiectau a rhwydweithiau rhyngwladol, gan gynnwys drwy fod yn aelod o rwydwaith rhanbarthau er iechyd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Mae gan ein cyrff hyfforddi ym maes iechyd gysylltiadau rhyngwladol sefydlog ledled y byd. Mae'r traddodiad cryf o waith amlddisgyblaeth rhwng GIG Cymru, prifysgolion a diwydiannau Cymru wedi esgor ar ymchwil sydd gyda'r gorau yn y byd. Yn Ewrop, llwyddwyd i sefydlu enw da Cymru drwy gyfrwng mentrau ynghylch heneiddio'n iach a'n gwaith ym maes iechyd meddwl.


Morvus Technology, y Fenni

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen fframwaith ryngwladol yn 2012, sef Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau ac, yn dilyn hyn, sefydlwyd Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd i greu canolbwynt ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol drwy'r GIG yng Nghymru.

Mae incwm sylweddol ynghlwm wrth waith ymchwil a datblygu arloesol yng Nghymru. Yn ogystal â datblygu a manteisio ar eiddo deallusol, drwy sicrhau bod y sail ymchwil i wyddor iechyd a gofal cymdeithasol yn rhan annatod o'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, gallwn annog diwydiannau fferyllol, biodechnegol ac eraill, gartref a thramor, i fuddsoddi'n sylweddol yn y maes.

Byddwn yn defnyddio'n haelodaeth o Rwydwaith Rhanbarthau er Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd i gryfhau ein cysylltiadau a datblygu enw da Cymru, gan ddangos arfer gorau ac ymrwymo i ddatblygiadau ac iddynt werth rhyngwladol amlwg.

Byddwn yn ceisio defnyddio 'Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol' Cymru i atgyfnerthu arfer gorau yn ein gwaith datblygu iechyd gyda'n partneriaid mewn rhannau eraill o'r byd.



Meddygon yn Ysbyty Ystrad Fawr, Caerffili


Fferyllfa, Ysbyty Ystrad Fawr

3. Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd

# 6. Gweithio yn ein marchnadoedd allweddol a chynrychiolaeth dramor

Mae presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn marchnadoedd allweddol yn caniatáu inni fanteisio ar gyfleoedd masnachu a buddsoddi a chreu cysylltiadau buddiol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.




Mae Cymru yn gweithio mewn amgylchedd byd- eang hynod gystadleuol. Nid yw'n hawdd creu cyfleoedd yn ein marchnadoedd allweddol- rhaid chwilio amdanynt a'u meithrin drwy'r cysylltiadau a'r berthynas rydym wedi'u datblygu dros y blynyddoedd.

Mae UDA a Japan wedi bod yn mewnfuddsoddi yng Nghymru ers blynyddoedd maith, ac mae'r gwledydd hyn hefyd yn werthfawr i gwmnïau sy'n allforio o Gymru. Bydd Cymru yn allforio gwerth bron £3 biliwn o gynhyrchion y flwyddyn i'r Unol Daleithiau, tra bod oddeutu 270 o gwmnïau Americanaidd yn cyflogi bron 50,000 o weithwyr yng Nghymru, gan gynnwys cwmnïau sydd gyda'r gorau yn y byd yn y sectorau cerbydau modur, amddiffyn a thechnoleg. Daw dros 80,000 o Americanwyr i ymweld â Chymru bob blwyddyn, a byddant yn gwario £32 ar gyfartaledd. Mae cwmnïau o Japan yn buddsoddi yng Nghymru ers y 1970au. Er bod gwaith mewn ambell sector wedi dirywio'n raddol, mae sectorau eraill, fel ynni niwclear a chynhyrchu bwyd, yn cynyddu.

Mae Tsieina ac India yn datblygu'n farchnadoedd allforio cynyddol werthfawr i gwmnïau Cymru. Yn ystod yr unfed ganrif ar hugain, mae allforion i Tsieina wedi cynyddu bedair gwaith, ac allforion i India wedi cynyddu bum gwaith. Mae cwmnïau sydd â pherchenogion Indiaidd yn cyflogi bron 5,000 o weithwyr yng Nghymru, yn enwedig yn y diwydiannau trymion. Mae busnes yn cynyddu hefyd rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a sefydliadau cyfatebol yn Tsieina ac India. Yn y dyfodol, bydd rhagor o gyfleoedd i fuddsoddi



Canu'r gloch yn y Gyfnewidfa Stoc, Efrog Newydd

yng Nghymru wrth i ranbarthau'r Dwyrain Canol a Goledd Affrica fuddsoddi rhagor mewn prosiectau mawr dramor. Yn yr un modd, mae'r rhanbarthau hyn – a'u ffyniant cynyddol – yn cynnig marchnadoedd newydd, o bosibl, i allforion Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru staff mewn saith o wledydd y tu allan i'r DU, sef Gwlad Belg, Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, India, Iwerddon, Japan a'r Unol Daleithiau. Eu prif rôl yw creu buddion a manteision economaidd i Gymru, yn bennaf drwy gyfrwng busnes, twristiaeth ac addysg. Mae ein swyddfeydd yn helpu i hyrwyddo Cymru fel gwlad i fuddsoddi, i weithio ac i astudio ynddi ac fel gwlad i ymweld â hi. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â chyrff y DU fel yr UKTI, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, VisitBritain, a'r British Council i hyrwyddo'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig ac i ychwanegu gwerth at fuddiannau Cymru.

Nid yw'n swyddfeydd tramor yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae'n hanfodol bod adrannau yng Nghymru yn cydweithredu â nhw ac yn eu cynorthwyo ac mae gan Weinidogion Cymru ran uniongyrchol a thyngedfennol yn y gwaith o hybu cysylltiadau busnes a diplomyddol ar y lefel uchaf. Bydd ein timau tramor a'n swyddfa yn Llundain yn gweithio'n agos gyda thimau yng Nghymru i gynnal cysylltiadau â'r rhai sy'n buddsoddi yn y wlad, ac i ddenu mewnfuddsoddiad newydd. Byddant hefyd yn hyrwyddo cwmnïau o Gymru, eu cynnyrch a'u gwasanaethau, gan helpu'r rhai sy'n awyddus i fentro i farchnadoedd hen a newydd. Mae ein timau tramor mewn sefyllfa dda i ddwyn holl fuddiannau Cymru ynghyd a rhoi hwb i deithiau masnach.

Nid ydym, ar unrhyw gyfrif, wedi'n cyfyngu i farchnadoedd lle mae gennym gynrychiolaeth dramor. Wrth i'r amgylchedd masnachu byd-eang newid, mae angen i ninnau ystyried yn gyson a ydym yn defnyddio'n hadnoddau yn y ffordd orau bosibl. Mae lleoliad ein swyddfeydd tramor yn sicrhau cydbwysedd rhwng y partneriaid rydym yn masnachu â nhw ers tro byd, marchnadoedd newydd a dinasoedd sydd o bwys masnachol a gwleidyddol. Mae'n bwysig bod â phortffolio o swyddfeydd tramor sy'n atgyfnerthu ein perthynas â'n partneriaid sefydledig gan hefyd chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar farchnadoedd sy'n datblygu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â gwledydd a rhanbarthau allweddol er mwyn hybu cyfleoedd economaidd i Gymru.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â chyrff sy'n cynrychioli'r DU i'w helpu i hyrwyddo buddiannau Cymru.

Bydd timau tramor Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau partneriaid busnes, ac yn hyrwyddo cwmnïau o Gymru a'u cynnyrch a'u gwasanaethau dramor. Bydd y timau hefyd yn darparu gwybodaeth leol a gwybodaeth am y farchnad, a byddant yn helpu i godi proffil Cymru a chryfhau ei henw da.

# 7. Cymru ac Ewrop

## Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn effeithio'n sylweddol ar fywydau pobl Cymru ac mae'n bwysig i lwyddiant ein cenedl.

Mae'r UE yn gwneud penderfyniadau ac yn pasio deddfau sy'n effeithio ar fuddiannau polisi Cymru fel busnes a masnach, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

Caiff Cymru fuddion sylweddol drwy fod yn aelod o'r UE. Rhwng 2014 a 2020 caiff Cymru oddeutu €2.4 bn gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Bydd y pecyn hwn, ynghyd â'r arian cyfatebol, yn creu buddsoddiad gwerth oddeutu €3.7 bn at ei gilydd a bydd yn ein helpu ni i sicrhau swyddi a thwf economaidd. Mae'r bartneriaeth hon hefyd yn caniatáu inni fanteisio ar raglen Ymchwil ac Arloesedd yr UE sydd â bron €80 bn i'w ddyrannu rhwng 2014 a 2020.

Yr UE yw partner masnachu mwyaf Cymru o hyd; mae'r farchnad yn cynnwys dros 500 miliwn o bobl, a hon yw economi fwyaf y byd o ran cynnyrch domestig gros. Mae'r Farchnad Sengl hefyd yn rhan hanfodol o'r hyn y gall Cymru ei gynnig i fuddsoddwyr tramor.

Mae dros 500 o gwmnïau Cymru yn allforio dros £5 bn bob blwyddyn i aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac mae tua 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar y fasnach hon. Yn ogystal â hyn, mae dros 450 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn cyflogi dros 50,000.

Mae swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn hyrwyddo ac yn diogelu buddiannau Cymru yng nghalon yr UE, yn darparu gwybodaeth ac yn dehongli materion yr UE o safbwynt buddiannau Cymru. Mae'r swyddfa hefyd yn gweithredu fel llwyfan ar gyfer rhwydweithio, ymestyn ein dylanwad a chodi proffil Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan yng Nghyngor y Gweinidogion a byddwn yn defnyddio'r holl gyrff perthnasol yn yr UE i hyrwyddo'n hamcanion.

Er mwyn hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru, rydym yn nodi unrhyw fentrau polisi arfaethedig gan yr UE a allai ddylanwadu er gwell ar Gymru, ac ymgysylltu yn y meysydd hynny gan hefyd weithio i liniaru mesurau a allai fod yn niweidiol i Gymru.

Ymhlith rhaglenni'r UE, dyma'n blaenoriaethau:

- y Farchnad Sengl i hyrwyddo masnach a buddsoddi;
- Strategaeth Ewrop 2020 i ysgogi swyddi a thwf;
- Cronfeydd strwythurol;
- Erasmus+;
- Cyfleuster Cysylltu Ewrop;
- Horizon 2020: Cymorth i waith Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Gwyddoniaeth

Y meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru yw Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Addysg a Sgiliau, y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Iechyd.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y ffaith ein bod yn aelod o'r UE, er budd pobl Cymru, drwy gyflawni'r amcanion a nodir yn ein Strategaeth ar gyfer yr UE[4].

### Cronfeydd Ewropeaidd

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd wrth gyd-drafod, gweithredu a chyflenwi Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru, materion Polisi Cydlyniant ehangach a rhaglenni y bydd yr UE yn eu rheoli'n uniongyrchol fel Horizon 2020.


Cyfarfod â Chomisiynydd yr UE

4. Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd yn ymwneud â Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd sy'n annog yr aelod-wladwriaethau i rannu arfer gorau a dysgu ar y cyd wrth ymdrin â materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Llwyddwyd i ddenu bron €43m i Gymru drwy'r Rhaglenni hyn rhwng 2007 a 2013. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE i adeiladu ar y cynnydd presennol drwy gymryd rhan yn y rhaglenni olynol, gwerth €80m o gyllid yr UE, a rhaglenni Gogledd-orllewin Ewrop, Ardal yr Iwerydd, INTERREG Ewrop, URBACT ac ESPON.

### Cysylltiadau Dwyochrog ac Amlochrog

Mae cysylltiadau amlochrog fel ein haelodaeth o Gynhadledd Rhanbarthau Morol Ymylol Ewrop a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol yn rhoi'r cyfle i Gymru hyrwyddo buddiannau Cymru yng nghyd-destun datblygu polisi rhyngwladol.

Mae gan Gymru gysylltiadau dwyochrog hirdymor yn Ewrop fel y rhai â Llydaw a Chatalunya, sydd â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sail iddynt.

Mae Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn llwyfan ar gyfer perthynas ddwyochrog agos ag Iwerddon a chysylltiadau cryfach â rhanbarthau Portiwgal, Ffrainc, Sbaen, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Gwald Belg a Luxembourg drwy raglenni trawsffiniol a thrawswladol.

Byddwn yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar yr holl ffynonellau cyllid Ewropeaidd sydd i'w cael, a hynny er budd Cymru, a byddwn yn dadlau o blaid dyrannu Cronfeydd Strwythurol ar sail anghenion rhanbarthau'r UE, ni waeth faint o gyfoeth sydd gan yr Aelod-wladwriaethau y maent yn rhan ohonynt.

# 8. Datblygiad cynaliadwy rhyngwladol


## Mae Cymru yn genedl sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch a chydraddoldeb ac mae hyn yn llywio'n gwaith rhyngwladol. Mae ein penderfyniadau'n effeithio ar fywydau pobl ar hyd a lled y byd.

Un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae hyn yn golygu cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

Rydym am sicrhau twf gwyrdd er budd busnes a'r amgylchedd gan gyfrannu hefyd at amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Drwy fod yn aelod o'r Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a'r Grŵp Hinsawdd, gallwn rannu arfer gorau a hyrwyddo Cymru a'n gallu fel llywodraeth ddatganoledig i ddatblygu polisïau rhanbarthol mewn fframwaith byd-eang.

Mae'r cysylltiadau ag nrg4SD yn rhoi cyfle arall i Gymru ddylanwadu ar y Cenhedloedd Unedig ac i hyrwyddo safbwyntiau Cymru ar lwyfan rhyngwladol.



Dyfrhau'r miliynfed coeden yn Uganda



Dathlu gefeillio trefi yng Nghymru ac Affrica y tu allan i'r Senedd


Teulu yn Uganda yn gwerthfawrogi gwaith PONT, un o bartneriaid Cymru o Blaid Affrica

## Y newid yn yr hinsawdd

Un o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cymryd camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Ers uwchgynhadledd Johannesburg yn 2002 mae Cymru wedi cyfrannu at ymdrechion rhyngwladol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â rhannu arfer gorau a chyfrannau at ymdrechion i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, mae fforymau rhyngwladol ar y newid yn yr hinsawdd yn rhoi cyfle i ni ddylanwadu ar bolisïau, hyrwyddo Cymru, creu cysylltiadau â busnesau, a sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd i hybu twf gwyrdd.

Yn ystod 2015, bydd cenhedloedd y byd yn cyhoeddi eu targedau ar gyfer lleihau allyriadau $C0^2$, a hynny cyn Cynhadledd y Partïon 21 ym Mharis. Gan weithio ochr yn ochr â'r DU, bydd Cymru yn cyfrannu at y cyd-drafodaethau rhyngwladol ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

## Cymru o Blaid Affrica

Yn 2006 , lansiwyd rhaglen Cymru o Blaid Affrica fel ymateb i'r ymgyrch, Rhowch Derfyn ar Dlodi, a Nodau Datblygu'r Mileniwm gan y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Rhaglen yn cynnig agwedd neilltuol Gymreig tuag at ddatblygu rhyngwladol ac yn cadarnhau'n hymrwymiad i hyrwyddo lle Cymru yn y byd fel cenedl gyfrifol.

Gwelwyd cynnydd aruthrol mewn gweithgareddau datblygu rhyngwladol drwy Gymru o ganlyniad i raglen Cymru o Blaid Affrica. Mae ein rhaglen plannu coed ym Mbale, Uganda, gyda'r gorau yn y byd, ac mae wedi ennill un o wobrau'r Cenhedloedd Unedig. Cymaint yw ei llwyddiant, mae'r targed cychwynnol o 1 miliwn o goed wedi codi i 10 miliwn. Daw'r prosiect â phobl leol ynghyd i'w dysgu am y manteision hirdymor sydd ynghlwm wrth blannu coed yn eu cymunedau, gwella diogelwch bwyd, cynnal bywoliaeth cymunedau, grymuso'r rhai sydd wedi'u gwthio i ymylon cymdeithas, dysgu agro-goedwigaeth ac arferion rheoli tir cynaliadwy gan hefyd helpu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae prosiect Cyswllt Cymunedol Cymru ac Affrica yn helpu dros 150 o gymunedau yng Nghymru i greu cysylltiadau â chymunedau Affrica Is-Sahara ac mae'n gweithio ar dros 300 o brosiectau datblygu sy'n creu buddion cyffredin i gymunedau yn y ddwy wlad. Mae pob bwrdd iechyd lleol yn cefnogi o leiaf un cyswllt â chymuned gyfatebol yn Affrica.

## Masnach Deg Cymru

Credwn fod cyfrifoldeb arnom i hyrwyddo gwerthoedd cyffredinol fel cyfiawnder, tegwch a chydraddoldeb yn fyd-eang. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Masnach Deg Cymru yn eu hymdrechion i godi ymwybyddiaeth o gynnyrch Masnach Deg ac i annog cymunedau, ysgolion, sefydliadau, unigolion, grwpiau Masnach Deg, llywodraeth leol a'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio rhagor ohonynt. Yn 2008 rhoddodd panel annibynnol o arbenigwyr[5] gydnabyddiaeth i gyflawniadau Cymru gan gyhoeddi mai Cymru oedd y Genedl Fasnach Deg gyntaf. Mae gan 46% o drefi Cymru a 82% o siroedd Cymru statws MASNACH DEG™.

## Fyd-eang

Yn ysgolion Cymru, mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'u prif ffrydio yn y cwricwlwm i helpu ein myfyrwyr i ddeall eu lle yn y byd.

5. Arbenigwyr Masnach Deg o'r Gymdeithas Masnach Deg Ryngwladol, y Gymdeithas Masnach Deg Ewropeaidd, Oxfam, Traidcraft a Chymorth Cristnogol.

# 9. Hyrwyddo Cymru

Gwlad fach mewn byd mawr yw Cymru. Rhaid gweithio'n galed ac yn ddiwyro i sicrhau ein bod yn cael ein gweld a'n clywed.

## Proffil

Mae cyflwyno delwedd gyson yn rhan hanfodol o'r gwaith o godi'n proffil a'n helpu ni i gyflawni'n huchelgais. Rhaid inni fod yn ddoeth i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

Roedd Cymru ymhlith y cenhedloedd cyntaf yn y byd i gael ei diwydianeiddio ond, er hyn, rydym wedi llwyddo i ddiogelu'n harfordir a'n cefn gwlad atyniadol. Heddiw, mae Cymru yn wlad ddatblygedig iawn ac mae gennym ddiwydiannau modern, sector addysg gref a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Mae'r Cymry yn bobl dalentog, agored, a gweithgar ac mae'r gallu gennym i addasu.

Uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd yn 2014 oedd y cyfarfod mwyaf o'i fath i'w gynnal yn y DU erioed. Cafodd Cymru ganmoliaeth gyffredinol am allu ei seilwaith i ymdopi â'r her enfawr o ran diogelwch a logisteg, ac am y croeso cynnes a roddwyd i'r ymwelwyr. Roedd amrywiaeth a gallu gwasanaethau cyhoeddus a phreifat Cymru, yn amlwg. Bu sylw'r wasg fyd-eang a'r sylwadau ffafriol am Gymru gan Lywydd yr Unol Daleithiau ac arweinwyr eraill yn hwb enfawr i ddelwedd Cymru yn y byd.

Nid Llywodraeth gwlad sy'n creu ei delwedd fel arfer, ond yr hyn y mae ei phobl yn ei gyflawni mewn amrywiol feysydd. Pobl Cymru sy'n penderfynu sut y caiff Cymru ei gweld yn y byd a hynny ym myd busnes, addysg, chwaraeon a diwylliant. Nod y Llywodraeth yw defnyddio'r ysbryd hwn i hyrwyddo Cymru a chreu hinsawdd sy'n ennyn hyder yng Nghymru a'i phobl.

Mae'r berthynas rhwng Cymru a rygbi yn hysbys i bawb ac, ers troad y mileniwm, mae gennym stadiwm rygbi gorau'r byd, efallai, yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol yn y stadiwm gan gynnwys y Gemau Olympaidd, ac mae digwyddiadau o'r fath yn sicrhau bod enw Cymru yn cael ei weld drwy'r byd i gyd. Cynhelir digwyddiadau o safon fyd-eang ym maes rygbi, pêl-droed, golff, snwcer, beicio a nifer o chwaraeon eraill yng Nghymru. Mae Cymru yn cymharu'n ffafriol â gwledydd bach eraill y byd o ran nifer y medalau y mae wedi'u hennill yn y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd, Cystadlaethau Ewropeaidd a Chystadlaethau'r Gymanwlad.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Cymru wedi ennill ei phlwyf fel un o brif ganolfannau'r diwydiannau creadigol. Cynhyrchwyd rhai o ddramâu teledu mwyaf poblogaidd Prydain – fel Dr Who, Sherlock, Y Gwyll/Hinterland – yng Nghymru ac fe'u hallforiwyd o amgylch y byd.

Yr arbenigedd ym maes cynhyrchu ffilmiau, a ddatblygodd dros nifer o flynyddoedd yn y diwydiant teledu yng Nghymru, fu'n rhannol gyfrifol am benderfyniad Stiwdios Pinewood, sy'n cynhyrchu ffilmiau James Bond, i sefydlu yng Nghymru.

Mae gwyddoniaeth ac arloesedd, wedi'i gyplysu â sector prifysgol ddynamig, yn allweddol i ffyniant cenedl. Mae Llywodraeth Cymru yn penodi Prif Gynghorydd Gwyddonol i sicrhau bod Cymru yn cadw ac yn datblygu sail wyddonol gref. Mae ymchwilwyr Cymru gyda'r gorau yn y DU ac mae llawer ohonynt yn gystadleuol ar lefel fyd-eang. Yn ôl y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn 2014, roedd dros dri chwarter yr ymchwil a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru gyda'r gorau yn y byd neu o safon ryngwladol ragorol. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn y mae Cymru yn rhagori ynddo, rydym yn meithrin enw da a hygrededd, sy'n hanfodol os ydym am sicrhau brand cryf i Gymru.

## Cymru a'r DU

Mae Cymru yn rhan o'r Deyrnas Unedig a byddwn yn manteisio ar bob cyfle i danlinellu manteision y ddwy agwedd ar yr hunaniaeth hon. Y DU yw un o wladwriaethau pwysicaf y byd, ac mae ein partneriaeth o fewn y DU yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo buddiannau Cymru drwy'r byd. Mewn ambell gyd-destun, mae'n gwneud synnwyr hyrwyddo Cymru ar wahân ond, dro arall, mae'n fanteisiol gwneud hynny o dan ymbarél y



Rygbi yn Stadiwm y Mileniwm © URC


Tardis Dr Who ym Mae Caerdydd


Y Red Arrows yn gwibio heibio, Uwchgynhadledd NATO Cymru


Yr Awyrlu Brenhinol yn Sain Tathan, Bro Morgannwg


Ymweld â bedd y prifardd Hedd Wyn yn Fflandrys



Arweinwyr NATO yn ymgasglu o flaen Castell Caerdydd ar gyfer Uwchgynhadledd NATO Cymru

DU. Nid ydym yn credu bod unrhyw wrthdaro'n codi drwy wneud y ddau.

Mae gan Lywodraeth y DU a chyrff eraill y DU fel Visit Britain a'r British Council gyfrifoldeb i hyrwyddo'r Deyrnas Unedig gyfan, nid fel un endid homogenaidd ond fel teyrnas gref sy'n cynnwys gwahanol rannau cryf. Ers 2012, mae'r ymgyrch GREAT Britain yn cael sylw cynyddol drwy'r byd i gyd. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr drwy'r DU i sicrhau bod Cymru yn cael ei chydnabod a'i hyrwyddo fel rhan o ymgyrch GREAT Britain ac ymgyrchoedd eraill sydd dan arweiniad y DU.

Rydym yn cadw'n rhwydwaith o swyddfeydd tramor ein hunain lle mae gennym fuddiannau i'w cynrychioli, ond mae'r rhain yn ychwanegol at gynrychiolaeth ehangach y DU, ac nid oes unrhyw fwriad iddynt gymryd lle'r gynrychiolaeth honno. Ni allwn ddisodli'r dylanwad eang y gall cynrychiolaeth y DU ei gynnig , ac nid dyna yw ein bwriad. Rydym yn gweithio gyda chyrff yn y DU i sicrhau bod ein buddiannau'n cael eu hadlewyrchu a byddwn yn defnyddio adnoddau'r DU i hybu buddiannau Cymru yn uniongyrchol.

Mae'r bwrlwm rhyngwladol sy'n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi (1 Mawrth) wedi'i hen sefydlu mewn nifer o wledydd a byddwn yn parhau i ddefnyddio diwrnod cenedlaethol Cymru i godi'n proffil dramor.

Mae gweithgarwch rhyngwladol yn ffynnu drwy Gymru ar lefelau gwahanol - o gynlluniau gefeillio trefi a theithiau cyfnewid diwylliannol i rannu profiadau ac arfer gorau ym myd busnes, iechyd a gweinyddiaeth gyhoeddus. Mae'r rhwydwaith academaidd rhyngwladol yn ffynnu ac mae cysylltiadau hynod gynhyrchiol rhwng pobl academaidd a sefydliadau. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn cynnal cysylltiadau a gweithgareddau dramor.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Corfflu Diplomyddol Tramor yn Llundain, ac rydym yn trefnu ymweliadau â Chymru yn aml i uwch lysgenhadon. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi cyfraniad y Conswliaid Anrhydeddus yng Nghymru ac yn gweithio'n agos â nhw.

Mae'r Cymry ar Wasgar drwy'r byd, cymdeithasau Cymreig a chyn-fyfyrwyr Prifysgolion Cymru i gyd yn cynnig cyfleoedd amrywiol i hyrwyddo buddiannau'r genedl.


Prif Weinidog Cymru gyda Phrif Weinidog Québec, Philippe Couillard


Cast drama lwyddiannus Y Gwyll /Hinterland.



Yr Archesgob Desmond Tutu gyda'r Prif Weinidog


Y Cylchoedd Olympaidd y tu allan i Neuadd y Ddinas, Caerdydd

# Sylwadau clo

Yn yr unfed ganrif ar hugain, ni all unrhyw wlad sy'n edrych tuag i mewn lwyddo'n economaidd. Rydym yn rhan o economi fyd-eang ac ni fydd hynny'n newid – dim ond cyflymu a wnaiff cysylltiadau rhwng cenhedloedd.

Mae ymestyn allan a meithrin cysylltiadau newydd yn hanfodol i fuddiannau Cymru. Mae'n bosibl y bydd cwmni'n penderfynu buddsoddi yng Nghymru yn dilyn blynyddoedd lawer o feithrin cysylltiadau ac ennyn hyder. Yn yr un modd, gall cwmnïau sy'n allforio dreulio blynyddoedd yn gwneud hynny. Mae'r farchnad fyd-eang yn orlawn, yn gystadleuol ac yn ddigyfaddawd. Nid wrth laesu dwylo y daw llwyddiant.

Ni all Llywodraeth Cymru hyrwyddo Cymru o'r tu ôl i ddesg yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam neu Fangor. Mae angen cenhadon, o fyd busnes a'r llywodraeth, i weithio hwnt ac yma o amgylch y byd. Cawn ein siomi weithiau a byddwn yn cymryd ambell gam gwag. Mae'r ffigurau buddsoddi diweddar wedi bod yn ardderchog ond nid felly y bydd o hyd. Nid yw'n hawdd – mae'n rhaid inni ymladd am bob swydd ac am bob cytundeb allforio.

Mae ôl-ofal yn hynod bwysig. Mae cynnal perthynas â'r rhai sy'n buddsoddi yng Nghymru ar eu tir eu hunain, lle bynnag y bo hynny, yn hanfodol. Ni allwn fforddio colli diddordeb cyn gynted ag y byddant wedi buddsoddi eu harian cychwynnol. Mae angen i'w prif swyddfa wybod bod Llywodraeth Cymru am i'n perthynas â'n buddsoddwyr barhau yn y tymor hir – ac os bydd problemau'n codi, rydym am weithio gyda nhw i'w datrys.

Mae ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor yn fuddsoddiad yng Nghymru. Yn y gorffennol, rydym wedi cau swyddfeydd ac wedi agor swyddfeydd newydd. Byddwn yn parhau i wneud hynny. Wrth i'r byd newid, mae angen i Gymru newid hefyd.

I gyflawni'n huchelgais, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'i holl bartneriaid gydweithredu i sicrhau bod Cymru yn cael ei dewis fel un o'r gwledydd cyntaf i ymweld â hi, ac i fuddsoddi, masnachu, gweithio neu astudio ynddi.



**Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**
Prif Weinidog Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn: internationalrelations@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG23630
ISBN Digidol 978-1-4734-4073-9 ISBN Print 978-1-4734-4071-5